Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

# Ymgysylltiad Safle Strategol yng Nghonwy: Adroddiad Prosiect, 16 Ionawr 2024

## 1. Cefndir

Ym mis Medi 2023, comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cymorth Cynllunio Cymru i gynnal digwyddiadau anstatudol i ymgysylltu â'r gymuned ar y pum Safle Strategol a awgrymwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau hyd yn hyn, yn myfyrio ynghylch y cynnydd a wnaed ac elfennau allweddol o'r ymateb a gafwyd gan gymunedau. Bydd CBS Conwy'n defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn sail ar gyfer y fersiwn Adneuo o'r cynllun.

## 2. Cwmpas

Bwriad y gwaith ymgysylltu hwn oedd ymchwilio i safbwyntiau cynrychiolwyr y cymunedau dan sylw ynglŷn â sut y gellid datblygu'r safleoedd yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd wrth lunio Cynlluniau Bro / Briffiau Safle / Uwchgynlluniau (neu geisiadau cynllunio, hyd yn oed) a bydd yn sail ar gyfer y fersiwn adneuo o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn 2024. Cwmpas y prosiect yn wreiddiol oedd cynnal un digwyddiad wyneb yn wyneb ac un digwyddiad ar-lein ar gyfer bob safle (cyfanswm o ddeg o ddigwyddiad) rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023.

Oherwydd prinder mannau i gynnal y digwyddiadau ac amser i'w hysbysebu, ni fu modd trefnu pob un ohonynt yn ystod y cyfnod hwn ac felly cytunwyd i symud rhai o'r digwyddiadau i fis Ionawr 2024.

Cafwyd nifer helaeth o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig ynglŷn â'r modd y rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau. Mae CCC wedi gwneud pob

ymdrech i addasu'r gweithgareddau ar sail hynny ac yn anffodus, ni fu modd rhannu'r rhestri cyswllt ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd oherwydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Yn sgil hynny, mae CCC wedi gwneud gwaith ychwanegol y tu hwnt i gwmpas gwreiddiol y prosiect, fel a ganlyn:

- Cynnal pedwar o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb; un yn Chwarel Llanddulas, un yn Llanrhos a 'digwyddiad dwbl' (un ar ôl y llall) yn Hen Golwyn oherwydd y nifer helaeth oedd wedi cofrestru ac/neu ar gais Aelodau.

- Hysbysebu'r digwyddiadau ychwanegol yn helaeth, gan gynnwys llunio, argraffu a phostio mwy na 1,000 o hysbysiadau i dai pobl wrth ymyl safleoedd neu gerllaw.

Cadwyd cofnod o'r gwariant a bydd hynny'n destun trafod â'r tîm Polisi Cynllunio Strategol gan y bu'r costau postio a chyfieithu ar y pryd yn fwy na'r disgwyl, ond ni chodir unrhyw dâl am y digwyddiadau ychwanegol.

**3. Hysbysebu, archebu a sylwadau ynglŷn â chyhoeddusrwydd**

Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol yn CBS Conwy, bu i Gymorth Cynllunio Cymru baratoi deunydd hysbysebu aml-sianel oedd yn cynnwys:

- Anfon hysbysiadau drwy e-bost at gynrychiolwyr lleol ar sail gwaith ymchwil mewn naw o gategorïau (Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, cynghorau cyfagos, gwasanaethau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector, grwpiau lleol, cynrychiolwyr busnesau lleol, busnesau ac 'eraill' fel y wasg leol a grwpiau anodd eu cyrraedd). Mewn achosion felly, bu CCC yn ddibynnol ar wybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd a'r hyn y gellid dod o hyd iddo wrth chwilio'r rhyngrwyd.
- Cyhoeddwyd negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CBSC.
- Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg leol trwy dîm y wasg CBSC.
- Dosbarthwyd posteri i fannau addas fel neuaddau Cyngor Tref, eglwysi a siopau gerllaw pob safle.

- Anfonwyd llythyrau / taflenni i'r tai wrth ymyl neu gerllaw'r safleoedd dan sylw, gan gynnwys cannoedd o lythyrau ar gyfer rhai o'r safleoedd.

Ymhob e-bost a anfonwyd i hysbysu pobl o ddigwyddiadau, gwahoddwyd cyfranogwyr i rannu'r gwahoddiadau gyda'u rhwydweithiau lleol. Mewn rhai achosion, denodd hynny gryn sylw yn y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg. Roedd pob hysbysiad yn cynnwys dolen at ffurflen archebu digwyddiad ar wefan *Eventbrite* a ddefnyddiwyd fel y gallai CCC gynllunio ar sail y niferoedd. Ceir crynodeb isod o'r hysbysebion a gyhoeddodd CCC, y cofrestriadau a gafwyd yn eu sgil a'r cyfranogiad a ddeilliodd o hynny:

| Digwyddiad | E-byst Anfonwyd[1] | Llythyrau Anfonwyd | Cofrestriadau | Nifer a fu'n bresennol |
|---|---|---|---|---|
| Llanrwst – Ar-lein, 9 Tach. | 74 | 47 | 2 | 3 |
| Llanrwst – Glasdir, 16 Tach. | | | 20 | 30 |
| Chwarel Llanddulas – Ar-lein, 15 Tach. | 65 | 143 | 10 | 7 |
| Chwarel Llanddulas – Ysgol Llanddulas, 22 Tach. | | | 26 | 37 |
| Chwarel Llanddulas – Llysfaen, 23 Tach. | | | 32 | 53 |
| Llanfairfechan – Ar-lein, 20 Tach. | 69 | 125 | 18 | 15 |
| Llanfairfechan – Neuadd Gymunedol, 7 Rhag. | | | 40 | 35 |
| Hen Golwyn – Ar-lein, 12 Rhag. | 88 | 394 | 20 | 14 |
| Hen Golwyn – Eglwys Festival, 10 Ion. | | | 50[2] | 29 |
| Hen Golwyn – Stadiwm CSM (x2) 22 Ion. | | | 105 | 62 |
| Llanrhos – Ar-lein, 16 Ion. | 5 [3] | 334 | 16 | 13 |
| Llanrhos – yr Hen Ysgol (x2), 23 Ion. | | | 92 | 58 |
| | | **~Cyfanswm y cyfranogwyr[4]** | | **356** |

1 Nifer y cyfeiriadau e-bost unigol ar gyfer grwpiau lleol oedd ar gael i'r cyhoedd a gafwyd drwy waith ymchwil ar ffurf chwilio *Google*. Efallai bod CCC a CBS Conwy wedi cysylltu â rhai o'r cyfeiriadau fwy nag unwaith ac nid yw'r swm yn cynnwys nifer yr e-byst unigol a anfonwyd i'r cyfeiriadau hynny (er enghraifft, i hysbysebu digwyddiadau ychwanegol).

2 Gwahoddwyd cyfranogwyr i ddod i'r digwyddiad(au) ar 22 Ionawr gan fod nifer y bobl a gofrestrodd yn fwy na'r hyn y gallai'r ystafell ei ddal, sef 80, a bod 13 o bobl ar restr aros. Gwnaed hynny am resymau iechyd a diogelwch.

Gan mai preswylwyr yw pobl Llanrhos yn bennaf a bod cyfeiriadau e-bost yn brin ar-lein, dosbarthwyd taflen i bob eiddo preswyl a busnes yng nghyffiniau'r safle yn hytrach na hysbysebu drwy e-bost, a wnaed gydag aelodau etholedig lleol yn unig.

4 Tybir y bydd y digwyddiadau sy'n weddill yn llawn. Bu amryw gyfranogwyr yn bresennol mewn dau o ddigwyddiadau neu fwy ar gyfer yr un safle neu hyd yn oed ar safleoedd eraill hefyd; mae'r swm a nodir felly'n gyfanswm o'r cyfranogwyr yn hytrach na chyfrif o'r unigolion a gyfranogodd (nid yw'r cyfrif hwnnw wedi'i wneud ond mae'n debygol o fod o leiaf 25% yn llai).

* Cofrestriadau oedd wedi'u gwneud erbyn 16 Ionawr 2024. Weithiau, mae nifer helaeth o bobl yn cofrestru ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad.

Ymateb i'r cyhoeddusrwydd

Er bod y deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiadau'n canolbwyntio ar gynrychiolwyr y cymunedau, crëwyd argraff gref ymysg y cyhoedd bod yr ymarfer yn ymgynghoriad ffurfiol ac y dylai pob preswyliwr lleol gael cyfle i gymryd rhan. Er nad oedd hynny'n ymarferol nac yn fforddiadwy yn ôl cwmpas yr ymarfer, addaswyd y gweithgareddau hyrwyddo wrth i'r ymarfer fynd yn ei flaen ar sail yr ymateb a gafwyd gan aelodau lleol a'r cyhoedd. Roedd hynny'n cynnwys cynnal digwyddiadau ychwanegol ar amserau gwahanol ac ehangu'r rhestr bostio ar gyfer hysbysebion wrth i'r prosiect ddatblygu.

Dylid nodi hefyd, yn wahanol i arolwg cyhoeddus ble gwahoddir y boblogaeth ehangaf bosib i gael *amrywiaeth* helaeth o safbwyntiau, diben y digwyddiadau hyn oedd trin a thrafod *yn fanwl* beth oedd barn cynrychiolwyr y cymunedau gerllaw'r safleoedd.

Er hynny, y prif bryderon a godwyd oedd:

- Nad oedd y digwyddiadau wedi eu hysbysebu'n ddigon eang a heb gyrraedd digon o bobl mewn pryd. Cyfyngwyd ar hyn i raddau gan yr amserlen a bennwyd i gwblhau'r prosiect a phrinder y manylion cyswllt y gellid eu darparu i CCC. Er gwaethaf hynny, hysbysebwyd yr holl ddigwyddiadau i'r Aelodau etholedig lleol a Chynghorau Tref a Chymuned drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Conwy, datganiadau i'r wasg a hysbysebion lleol.

- Bod y wybodaeth a ddarparwyd am y digwyddiadau'n annigonol ac wedi esgor ar amryw geisiadau am fwy o wybodaeth gan CBS Conwy a CCC. Er y gwnaed pob ymdrech i egluro natur y digwyddiadau'n glir yn yr hysbysebion cychwynnol, mynegodd llawer o bobl bryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth am y cynigion ar y safleoedd eu hunain. Er y manteisiwyd ar bob cyfle i bwysleisio nad oedd llawer o wybodaeth ar gael yn y cam hwn ac mai nod yr ymarfer oedd casglu gwybodaeth yn sail ar gyfer ymgynghoriad statudol dilynol ynghylch y fersiwn adneuo o'r cynllun, ni leddfwyd y pryderon hynny. Lluniodd CCC ddogfen 10 tudalen gydag atebion i gwestiynau cyffredin ynglŷn â'r ymarfer ac fe rannodd y sleidiau ar ôl cynnal y digwyddiad cyntaf ar bob safle, ac fe leddfodd hynny'r pryderon rywfaint.

Yn seiliedig ar yr uchod, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymell y camau canlynol i wella cyhoeddusrwydd yn y dyfodol:

1. Pennu a hyrwyddo cwmpas a therfynau'r gwaith cyhoeddusrwydd o'r cychwyn cyntaf, gan roi mwy fyth o bwyslais ar wahodd cynrychiolwyr y gymuned i helpu i 'ledaenu'r gair'.

2. Dechrau hysbysebu pob digwyddiad o leiaf wyth wythnos o flaen llaw.

3. Sicrhau y llunnir gwe-dudalen sy'n cynnwys yr holl wybodaeth gefndirol sydd ar gael, dolenni at ymarferion a gynhaliwyd yn y gorffennol a manylion ynglŷn â sut i gofrestru ar gyfer digwyddiadau cyn dechrau hysbysebu.

4. Ystyried cynnal digwyddiadau mewn mannau mwy / mwy hyblyg, gan ystyried mor agos ydynt at y safleoedd dan sylw.

5. Sicrhau bod cofrestr ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol ar gael / bod modd rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau drwy'r gofrestr.

**4. Sylwadau ynglŷn â'r Safleoedd Strategol**

Er gwaethaf y pryderon na roddwyd cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau'n ddigon helaeth, cafodd pob digwyddiad fwy na chant o sylwadau unigol ynglŷn ag amrywiaeth helaeth o faterion yn ymwneud â gwybodaeth leol, dyluniad safleoedd a blaenoriaethau cymunedol. At ei gilydd, mae'n debygol y bydd yr ymarfer wedi casglu tua 1,400 o sylwadau a fydd yn arbennig o fuddiol yn y camau nesaf o'r cynllun.

Dylid nodi y byddai cyfran o'r rhai a fu'n bresennol yn yr holl ddigwyddiadau'n debygol o wrthwynebu datblygu'r safle(oedd) pe byddai'r ymarfer yn ymgynghoriad ffurfiol. Ymysg y pryderon cyffredin a fynegwyd yn yr holl ddigwyddiadau roedd:

- Yr effaith bosib ar wasanaethau cyhoeddus y bernid eu bod eisoes dan straen, yn bennaf:

  - Prinder meddygfeydd a deintyddion yn yr ardal (soniwyd ymhob digwyddiad am aros amser maith am apwyntiadau).
  - Prinder lleoedd mewn ysgolion yn yr ardal a rhoi mwy o straen ar yr ysgolion presennol.

- Natur y cynigion, eu priodoldeb a'u graddfa, ac mor agos ydynt at aneddiadau presennol; er enghraifft,
  - Canfyddiad y byddai'r tai arfaethedig oll yn unedau mawr (4/5 ystafell wely, er enghraifft) ac na fyddai'r tai ar y farchnad yn bodloni anghenion lleol nac yn fforddiadwy i bobl leol.
  - Effeithiau ar yr amgylchedd, ar fywyd gwyllt a byd natur
  - Pryderon amgylcheddol penodol ynglŷn â Chwarel Llanddulas, gan gynnwys swm enfawr y gwaith adfer angenrheidiol, yr effaith o gael mwy o lorïau'n mynd a dod ar y safle i drosglwyddo gwastraff, yr effaith barhaus ar fywyd gwyllt a byd natur a cholli man agored a allai fod yn werthfawr i'r cyhoedd yn y dyfodol ac y byddai'r gymuned wedi'i adennill wedi i'r gweithrediadau presennol ddod i ben.

  Datblygiadau'n gwaethygu llifogydd yn lleol, yn creu dŵr ffo ac yn effeithio ar y rhwydweithiau carthffosiaeth presennol, heb fawr o ffydd y bydd systemau draenio cynaliadwy'n datrys y broblem.
- Yr effaith bosib ar y rhwydweithiau priffyrdd presennol sydd eisoes yn destun tagfeydd, a hynny ar ben y ffaith bod gwasanaethau bysus lleol eisoes yn crebachu.
- 

Er gwaethaf pryderon ynglŷn â'r egwyddor o ddyrannu pob safle, bu pobl yn fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau manwl a chynnig syniadau ynglŷn â dyluniad posib y safle a blaenoriaethau'r gymuned pe byddai'r datblygiadau'n digwydd.

Dyma enghreifftiau o'r syniadau a awgrymwyd:

- Sicrhau y datrysir yr holl broblemau uchod yn llwyr, yn enwedig cyn ymgynghori ynghylch y fersiwn Adneuo cyn bo hir, a rhoi sail resymegol glir ar gyfer dethol y safleoedd hyn yn hytrach na rhai eraill a allai fod yn fwy addas – er enghraifft, safleoedd tir llwyd.

- Sicrhau bod y tai a ddatblygir yn cynnwys cymysgedd addas o fathau o dai sy'n bodloni anghenion lleol / anghenion y gymuned ac yn 'fforddiadwy go iawn'. Daeth cyfranogwyr yn y rhan helaeth o'r digwyddiadau i'r casgliad y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau cyfran cymaint â phosib o dai fforddiadwy (a gorfodi hynny).
- Sicrhau bod unrhyw fan agored cyhoeddus yn addas i bobl o *bob* oed hamddena (hynny yw, mae'n bwysig cael caeau chwarae ond mae lleoedd i fynd â chŵn am dro, cyfleusterau chwaraeon awyr agored ac ati'n bwysig hefyd).
- Yn lle creu stadau newydd o dai, rhoi mwy o bwyslais ar integreiddio datblygiadau newydd yn y cymunedau presennol, gan gynnwys darparu mannau i'r gymuned gwrdd / caffis / siopau / gwasanaethau, hygyrchedd da / llwybrau troed, dyluniad sy'n integreiddio â threftadaeth yr ardal ac yn clodfori hynny.

## 5. Canlyniadau

Gall fod yn heriol ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn â dyrannu safleoedd penodol. Serch hynny, ni fyddai Cymorth Cynllunio Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith pe na fyddai'n credu fod yno werth i'r gymuned o wneud hynny a'i fod yn ffyddiog y câi'r sylwadau eu cymryd i ystyriaeth. Mae CCC o'r farn bod y prosiect wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Ychwanegu gwerth at y drefn ymgynghori / ymgysylltu ym maes cynllunio a galluogi mwy o bobl leol i fynegi barn fwy ystyrlon yn gynnar yn y drefn honno, y tu hwnt i'r gofynion cynllunio arferol - cynhelir yr ymarfer cyfan yn ychwanegol i'r ymgyngoriadau 'statudol' a gynhaliwyd ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r rhai sydd eto i ddod.

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch:
    - Y Cynllun Datblygu Lleol newydd sydd ar y gweill
    - Ymgyngoriadau a wnaed eisoes ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol gan gynnwys y canlyniadau a dogfennau cefndirol sydd ar gael ar wefan Conwy
    - Newidiadau a wnaed ers pennu'r Strategaeth a Ffefrir
    - Yr ymgynghoriad ynghylch fersiwn Adneuo'r Cynllun cyn bo hir, a'r Safleoedd eu hunain.
    - 

Roedd gwaith cyhoeddusrwydd CCC yn cynnwys hysbysu 300 o bobl y bernid eu bod yn gynrychiolwyr cymunedol, ac efallai na fyddai wedi cysylltu â rhai ohonynt wrth gynnal ymarfer ymgynghori arferol. Mae CCC wedi postio 1,043 o lythyrau at bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r safleoedd, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r gofynion arferol ar gyfer hysbysiadau statudol; fel arall, efallai na fyddai'r bobl hynny wedi gwybod dim am y cynigion yn y camau statudol.

- Creu diddordeb enfawr ymysg y cyhoedd (yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol), yn rhannol drwy ganolbwyntio ar ymgysylltu ynghylch safleoedd penodol yn hytrach nag ymgynghori ynghylch y cynllun yn gyffredinol. Er ei bod yn anodd rheoli gwybodaeth a rennir y tu hwnt i sianeli'r awdurdod, mae CCC o'r farn fod hyn wedi creu llawer gwell ymwybyddiaeth.

Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd ynglŷn â chyhoeddusrwydd, cafwyd 398 o gyfranogwyr gweithredol yn sgil y 1,343 o ohebiaethau a gyhoeddodd CCC. Heb gynnwys datganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol CBS Conwy, cafwyd cyfradd ymateb o 29%, sy'n llawer iawn mwy na'r hyn y gellid ei ddisgwyl mewn ymarfer fel hyn.

- Helpu i hybu dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch:
  - Proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd,
  - Cynllunio strategol ar sail tystiolaeth,
  - Y modd y dyrennir safleoedd strategol,
  - Y berthynas rhwng cynlluniau datblygu lleol a cheisiadau cynllunio, ac
  - Ystyriaethau perthnasol

- Gwella dealltwriaeth y tîm Polisi Cynllunio Strategol o bryderon, syniadau a dyheadau'r gymuned, a gellid dadlau fod hyn yn 'gosod y safon' ar gyfer dull graenus o greu lleoedd a fedrai amlygu cyfyngiadau newydd na fyddent o reidrwydd wedi cael eu hystyried fel arall. Mae'n debygol y bydd y prosiect yn cynhyrchu mwy na 1,400 o sylwadau unigol ar gyfer y pump o safleoedd, a fydd yn rhoi llawer iawn mwy o fanylder ar sail gwybodaeth leol (a phryderon), dyluniad y safleoedd a blaenoriaethau'r gymuned, a bydd modd ystyried y rheiny wrth lunio polisïau ar gyfer y safleoedd dan sylw.

- Creu cyfleoedd i ddysgu ar gyfer trefnu gwaith ymgysylltu yn y dyfodol o safbwynt Conwy a Chymorth Cynllunio Cymru.

- Bu'n brosiect deinamig a roes ystyriaeth i farn y gymuned yn ystod (yn hytrach nag ar ôl) y prosiect. Er gwaethaf rhai pryderon a fynegwyd, aethpwyd ati'n gyson i addasu ac ehangu'r gwaith ymgysylltu yn ôl anghenion y gymuned. Roedd hynny'n cynnwys hysbysebu'n fwy helaeth, darparu mwy o wybodaeth a chynnal pedwar o ddigwyddiadau ychwanegol ar wahanol adegau ac mewn gwahanol fannau ar gais aelodau o'r cyhoedd ac aelodau etholedig. Cynhaliwyd y digwyddiadau ychwanegol hynny heb unrhyw gostau ychwanegol i'r awdurdod.

## 6. Y Camau Nesaf

Wedi cynnal y digwyddiad olaf ar 23 Ionawr, bydd CCC yn llunio pump o adroddiadau ysgrifenedig i grynhoi'r sylwadau a gafwyd, un i bob safle. Bydd yr adroddiadau hynny'n cynnwys:

- Crynodeb o'r gwaith a wnaed a'r pryderon a godwyd fynychaf.
- Crynodeb o'r gwaith hysbysebu a wnaed, gan gynnwys y grwpiau y cysylltwyd â hwy a map o'r tai a dargedwyd.
- Atodiadau sy'n cynnwys yr holl bwyntiau a godwyd ymhob digwyddiad a sylwadau eraill a dderbynnir drwy e-bost.

Rhagwelir y bydd yr holl adroddiadau wedi'u hysgrifennu a'u hanfon at holl gyfranogwyr y digwyddiadau a CBS Conwy erbyn 9 Chwefror 2024 fan bellaf.